

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y  
Bowl) a Chyffordd 8A (Llanfair  
Pwllgwyngyll), Ynys Môn)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2019

The A55 Trunk Road (Junction 8  
(Ael y Bowl Interchange) &  
Junction 8A (Llanfair PG), Isle of  
Anglesey) (Temporary Prohibition  
of Vehicles) Order 2019

*Gwnaed* 13 Awst 2019  
*Yn dod i rym* 16 Awst 2019

*Made* 13 August 2019  
*Coming into force* 16 August 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl) a Chyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 16 Awst 2019.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 8 (Ael y Bowl Interchange) & Junction 8A (Llanfair PG), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 16 August 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 16 Awst 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A55 London to Holyhead Trunk Road;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaerdybi.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 09:30 hours on 16 August 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## **Cymhwys**

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Awst 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLEN**

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll).

Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl).

## **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

## **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

13 August 2019

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

## **SCHEDULE**

The length of the westbound exit slip road at Junction 8A (Llanfair PG).

The lengths of the westbound entry and eastbound exit slip roads at Junction 8 (Ael y Bowl Interchange).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 8 (CYFNEWIDFA AEL Y BOWL) A  
CHYFFORDD 8A (LLANFAIR  
PWLLGWYNGYLL), YNYS MÔN)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl) a Chyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 09:30 o'r gloch ar 16 Awst 2019 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 15:30 o'r gloch ar 30 Medi 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Dyma'r amserlen a ddisgwylir ar gyfer y gwaith ar y ffyrdd ymadael ac ymuno wrth y ddwy gyffordd:

- Ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll): yn ystod y dydd (09:30 – 15:30 o'r gloch) o 16 – 19 Awst 2019.
- Ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl): dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 19 – 23 Medi 2019.
- Ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl): dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 23 – 25 Medi 2019
- Ffordd ymuno tua'r gorllewin a ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl): dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 27 – 30 Medi 2019.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://gweddiill.llyw.cymru/legislation/subordinate) ar <https://gweddiill.llyw.cymru/legislation/subordinate> (Detholer: Offerynnau statudol lleol/Gorchymynion traffig dros dro/2019).

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 8 (AEL Y  
BOWL INTERCHANGE) & JUNCTION 8A  
(LLANFAIR PG), ISLE OF ANGLESEY)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 8 (Ael y Bowl Interchange) and Junction 8A (Llanfair PG), Anglesey.

It is expected that the temporary prohibition will come into force at 09:30 hours on 16 August 2019 and operate intermittently until 15:30 hours on 30 September 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 described in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also described therein.

The timetable for works on the slip roads at the 2 junctions is expected to be as follows:

- Westbound exit slip road at Junction 8A (Llanfair PG): daytime (09:30 – 15:30 hours) from 16 – 19 August 2019.
- Westbound entry slip road at Junction 8 (Ael y Bowl Interchange): overnight (19:00 – 06:00 hours) from 19 – 23 September 2019.
- Eastbound exit slip road at Junction 8 (Ael y Bowl Interchange): overnight (19:00 – 06:00 hours) from 23 – 25 September 2019
- Westbound entry and eastbound exit slip roads at Junction 8 (Ael y Bowl Interchange): overnight (19:00 – 06:00 hours) from 27 – 30 September 2019.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gweddiill.gov.wales/legislation/subordinate> (Select: Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### **YR ATODLEN**

1. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll).

Y llwybr arall yw mynd ar hyd yr A5 tua'r dwyrain hyd at y Garej Shell a dychwelyd tua'r gorllewin.

2. Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl).

Y llwybr arall yw mynd ar hyd yr A55 tua'r dwyrain hyd at Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a dychwelyd tua'r gorllewin.

#### **SCHEDULE**

1. The length of the westbound exit slip road at Junction 8A (Llanfair PG).

The alternative route is via the eastbound A5 to the Shell Garage and return westbound.

2. The lengths of the westbound entry and eastbound exit slip roads at Junction 8 (Ael y Bowl Interchange).

The alternative route is via the eastbound A55 to Junction 9 (Treborth Interchange) and return westbound.